Yr Hen Iaith – Ein Dyheadau

Er gwaethaf bod Ioan Sant yn eglwys Saesneg, mae bron i hanner y gynulleidfa yn siarad Cymraeg. Mae'r holl blant yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly wnawn ni annog yr aelodau sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd anffurfiol ac yn cyflwyno rhywfaint o Gymraeg i'r gwasanaethau. Mae ein posteri ni ar gyfer digwyddiadau yr eglwys yn ddwyieithog fel arfer.

Mae ein cynlluniau ar gyfer diweddaru adeilad yr eglwys yn cynnwys gosod offer aml-gyfrwng sy'n rhoi'r gallu i ni arddangos emynau a gweddïau yn ddwyieithog ar sgriniau fideo mawr yn lle defnyddio llyfrau emynau a llyfrau gweddi yn Saesneg. Bydd hyn yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gwasanaethau ymhellach.